



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Systemau Monitro Cychod ar gyfer cychod pysgota yng Nghymru

Ymgynghoriad ar gyflwyno Systemau Monitro Cychod ar gyfer cychod pysgota Prydeinig o dan 12 metr o hyd sydd wedi'u trwyddedu ac sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru. Ynghyd ag unrhyw gychod pysgota Cymreig o dan 12 metr o hyd ble bynnag y maen nhw'n gweithredu.

Dyddiad cyhoeddi: 8 Chwefror 2019

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 3 Mai 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn y cyhoedd ar y cynnig i gyflwyno Systemau Monitro Cychod ar gyfer cychod pysgota Prydeinig o dan 12 metr o hyd sydd wedi'u trwyddedu ac sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru. Ynghyd ag unrhyw gychod pysgota Cymreig o dan 12 metr o hyd ble bynnag y maen nhw'n gweithredu (gan gynnwys y tu allan i ddyfroedd Cymru). Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud hyn yn ofyniad deddfwriaethol trwy offeryn statudol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio adnabod unrhyw effeithiau posibl ar fusnesau o ganlyniad i gyflwyno systemau monitro cychod ar gyfer cychod llai na 12 metr. Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb arbennig i berchnogion a gweithredwyr cychod pysgota Prydeinig o dan 12 metr o hyd sydd wedi'u trwyddedu ac sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru, ond, mae'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn yn agored i unrhyw un sydd am roi eu barn ar y polisi arfaethedig. Yr ymgynghoriad hwn yw'r brif ffordd y byddwn y casglu barn pobl ar y cynnig.

Sut i ymateb

Mae modd cyflwyno ymatebion trwy e-bost, y post neu trwy ffurflen ar-lein gan Lywodraeth Cymru ar <https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Dylai negeseuon e-bost/ymatebion trwy'r post gael eu hanfon i'r cyfeiriad isod er mwyn cyrraedd erbyn 3 Mai 2019 ar yr hwyraf. Rhowch 'Ymgynghoriad Systemau Monitro Cychod' ym mlwch pwnc yr e-bost.

Trwy E-bost: MarineAndFisheries@gov.wales

Trwy'r Post:

Ymgynghoriad Systemau Monitro Cychod

Tim Croucher

Adran y Môr a Physgodfeydd

Llywodraeth Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

Conwy

Cymru

LL31 9RZ

**Rhagor o wybodaeth
a dogfennau
cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn
print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Tim Croucher

Cyfeiriad:

Adran y Môr a Physgodfeydd

Llywodraeth Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

Conwy

Cymru

LL31 9RZ

E-bost:

Tim.croucher@gov.wales

Rhif ffôn:

03000258757

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD,

CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Beth yw'r rheswm dros yr ymgynghoriad hwn?

Bwriad yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn yw gofyn am farn y cyhoedd ar gyflwyno deddfwriaeth arfaethedig a fydd yn ei gwneud yn ofyniad statudol i gael System Fonitro Cychod weithredol ar gyfer unrhyw gychod pysgota Prydeinig o dan 12 metr o hyd sydd wedi'u trwyddedu ac sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru. Ynghyd ag unrhyw gychod pysgota Cymreig ble bynnag y maen nhw'n gweithredu (gan gynnwys y tu allan i ddyfroedd Cymru). Y rheswm am hyn yw ein bod yn ymwybodol bod mwy y gallwn ni ei wneud o ran casglu data. Trwy gyflwyno system fonitro cychod byddwn yn casglu gwybodaeth o ansawdd uchel i gael ei defnyddio gan y diwydiant a'r Llywodraeth er mwyn sicrhau diwydiant pysgota cynaliadwy a llewyrchus yng Nghymru¹.

Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb arbennig i berchnogion a gweithredwyr cychod pysgota Prydeinig o dan 12 metr o hyd sydd wedi'u trwyddedu ac sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru. Ynghyd ag unrhyw gychod pysgota Cymreig o dan 12 metr o hyd. Yn ymarferol bydd hyn yn cynnwys cychod o'r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n pysgota yn nyfroedd Cymru ynghyd â chychod tiriogaethau dibynnol y Goron. Ar gyfer y cynnig hwn mae dyfroedd Cymru yn golygu Parth Cymru¹.

Beth yw'r System Fonitro Cychod (VMS)?

Mae'r System Fonitro Cychod yn cofnodi lleoliad, cyflymder a chyfeiriad cwch gan ddefnyddio system ddiogel nad oes modd ymyrryd â hi. Mae'r system yn anfon yr wybodaeth yn achlysurol i ganolfan genedlaethol sefydledig. Pan nad oes signal i anfon yr adroddiadau, bydd y systemau monitro cychod yn storio'r adroddiadau ac yn eu hanfon pan fo modd gwneud hynny.

Ble yr ydym ni nawr?

Ers 2012, mae wedi bod yn ofyniad statudol i bob cwch bysgota Ewropeaidd dros 12 metr o hyd gael system fonitro cychod weithredol ar ei bwrdd (Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1224/2009). Mae'r systemau hyn yn cael eu defnyddio'n eang fel adnoddau monitro a rheoli. Hefyd, yn 2012, cafwyd deddfwriaeth a oedd yn gorfodi cychod pysgota yn niwydiant cregyn bylchog Cymru i ddefnyddio system fonitro cychod (Gorchymyn Gweithrediadau Llusgrwydo Cregyn Bylchog (Dyfeisiau Olrhain) (Cymru) 2012 (OS 2012/2729 (W.292))).

Beth yr ydym yn cynnig ei wneud?

Rydym yn cynnig y dylai trefn debyg i'r systemau monitro cychod sy'n bodoli'n barod ar gyfer llongau 12 metr a mwy, fodoli ar gyfer cychod o dan 12 metr hefyd. Bydd y system fonitro cychod ar gyfer cychod o dan 12 metr yn wahanol i'r system fonitro cychod ar gyfer y fflyd 12 metr a mwy, gan y bydd yn defnyddio dull rhatach o anfon y data na thechnoleg lloeren. Llywodraeth Cymru fyddai'n ariannu'r gost wreiddiol ynghyd â gosod y system, gan ddefnyddio Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Byddai gan y dyfeisiau o leiaf dair blynedd o warant a byddem yn ceisio talu'r costau trawsyrru am o leiaf y flwyddyn gyntaf. O ganlyniad, byddai'r costau i'r diwydiant yn cael eu cyfyngu i gostau adrodd yn y dyfodol a chostau trwsio a newid y tu allan i'r warant. Mae'n bosibl y byddai cyfle i brynu gwarant estynedig ar ôl i'r warant wreiddiol ddod i ben.

Cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfres o weithdai ledled Cymru i drafod y cynigion. Gwahoddwyd perchnogion pob cwch bysgota trwyddedig

¹ Parth Cymru yw'r ardal o fôr sy'n gyffiniol â Chymru, yn ôl diffiniad Gorchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010.

sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru i'r gweithdai, cafodd y cynigion eu cyflwyno a chafodd y diwydiant gyfle i roi adborth.

Mae Defra wedi cynnal ymgynghoriad ar gynigion tebyg ar gyfer Lloegr a fflyd bysgota Lloegr.

Pam fod angen i ni gyflwyno Systemau Monitro Cychod ar gyfer y fflyd o dan 12 metr?

O'r 408 o gychod pysgota trwyddedig yng Nghymru dim ond un ar ddeg sydd dros 12 metr ac felly'n cael eu tracio ar hyn o bryd gan system fonitro cychod yn unol â gofynion deddfwriaethol yr UE. Rydym am gyflwyno'r gofynion ar gyfer y fflyd o dan 12 metr ynghyd â'r gofynion ar gyfer y fflyd fwy er mwyn cael darlun gwell o ble mae pysgota'n digwydd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd am asesu'r opsiynau ar gyfer system adrodd daliad ar gyfer y fflyd o dan 10 metr a fydd yn darparu gwybodaeth ar beth sy'n cael ei ddal. Byddai'r math yma o system wedi'i chyfuno â system monitro cychod yn rhoi darlun gwell o'r lefelau pysgota presennol yng Nghymru ac yn helpu i benderfynu a ydynt yn gynaliadwy. Mae angen i ni greu pysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol trwy orfodaeth effeithiol a rheolaeth ar sail gwybodaeth.

Beth fydd y buddion i'r diwydiant o gyflwyno Systemau Monitro Cychod?

Bydd cyflwyno systemau monitro cychod ar gyfer cychod o dan 12 metr sy'n gweithredu yng Nghymru yn cynnig y buddion canlynol i'r diwydiant:

- Gadael i bysgotwyr ddangos tystiolaeth o'u gweithgarwch pysgota, tystiolaeth a all gael ei ddefnyddio i ymateb i ddatblygiadau arfaethedig yn yr amgylchedd morol a allai gael effaith ar eu busnes.
- Gallai'r nodwedd dracio helpu gydag adferiad a thaliadau yswiriant cynt mewn achosion o golled neu ddifrod i'r cwch ar y môr.
- Darparu nodweddion diogelwch ychwanegol i ddarparu diogelwch ar gyfer pysgotwyr unigol.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiynau ymgynghorol

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig bod angen System Fonitro Cychod ar gychod llai na 12 metr? Ydw / Nac Ydw / Ddim yn siŵr, rhowch sylwadau isod i gefnogi eich barn.

Cwestiwn 2: Pa gamau eraill y gellid eu cymryd i gyrraedd yr un amcanion?

Cwestiwn 3: Beth yw eich barn ar y costau a'r buddion a amlinellir yn y copi drafft o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, ydych chi'n cytuno â nhw? Ydw /Nac Ydw, rhowch sylwadau isod i gefnogi eich barn.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'r dadansoddiad o'r costau a'r buddion a amlinellir yn y copi drafft o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol - Ydw / Nac Ydw, rhowch sylwadau isod i gefnogi eich barn.

Cwestiwn 5: Oes unrhyw gostau neu fuddion sydd heb gael eu nodi yn y copi drafft o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol. Pa dystiolaeth sydd gennych chi i gefnogi hyn?

Cwestiwn 6: Rydym yn ymwybodol fod cyflwyno'r dechnoleg newydd hon ar gychod yn cynnig cyfle i ddarparu buddion ychwanegol i'r diwydiant y tu allan i sgôp ein cynigion. Byddem yn croesawu eich cynigion ar unrhyw nodweddion diogelwch neu reoli eraill (ee dyn dros yr ochr, larymau dŵr ac ati) y gellid eu hymgorffori ar unrhyw systemau gaiff eu datblygu?

Cwestiwn 7: Hoffem gael eich barn ar effeithiau cyflwyno system fonitro cychod ar y Gymraeg, yn benodol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.

Pa effeithiau allai hyn ei gael? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 8: Esboniwch sut yr ydych yn credu y gellid ffurfio neu newid y system Gymreig o fonitro cychod fel ei bod yn cael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg. Ynghyd â sicrhau nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.

Cwestiwn 9: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r gofod

hwn:

Camau Nesaf

Mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 3 Mai 2019. Byddwn yn llunio crynodeb o'r atebion i'r ymgynghoriad hwn ac yn defnyddio'r canfyddiadau i ddatblygu system fonitro a pholisïau cysylltiedig.

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.